# Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

## Goleuo'r Gorffennol i wneud y Dyfodol yn fwy diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## BRIFFIAD 7 MUNUD
## DYNLADDIAD ARFAU BYGYTHIOL AC ADUUau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru

### CEFNDIR


- Cyflwynwyd Adolygiadau Dynladdiad Arfau Bygythiol (ADABau) gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 i gefnogi asiantaethau lleol i gydweithio er mwyn nodi gwersi a fydd yn helpu i atal marwolaethau yn y dyfodol.
- Yn dilyn ymgynghoriad eang, ysgrifennwyd canllawiau statudol y Swyddfa Gartref ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Uned Atal Trais Cymru a'r tîm ADUU. Mae Pennod 5 o'r canllawiau'n cyfeirio at y broses ADUU yng Nghymru, a fydd yn cael ei defnyddio i gyflawni rhwymedigaethau'r ddeddfwriaeth hon, ochr yn ochr â'r canllawiau ADUU ehangach.
- Mae'r Swyddfa Gartref wedi cymeradwyo De Cymru, Llundain a Birmingham fel ardaloedd Peilot. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i hyn, a bydd y cynllun peilot yn cychwyn fis Ebrill 2023.
- Bydd ymgynghori cyhoeddus ar y canllawiau ADUU yn cychwyn yn ystod y gwanwyn yn 2023.

### ADOLYGIADAU PARALEL

O ganlyniad i ddysgu drwy ddyblygu blaenorol mewn prosesau adolygu a'r ymchwil ADUU, lle mae dynladdiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adolygiad presennol penodedig, ni chomisiynir Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol.
Yng Nghymru, os yw'r dynladdiad yn cynnwys un elfen neu fwy mewn perthynas â meini prawf arf bygythiol, Iechyd Meddwl, Domestig, Plant neu Oedolion, gall ADUU gael ei gynnal.

### PARTNERIAID ADOLYGU PERTHNASOL

- Pan mae dynladdiad yn digwydd, sy'n cynnwys arf bygythiol, bydd adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn dysgu gwersi.
- Mae deddfwriaeth yn disgrifio'r tri Phartner Adolygu Perthnasol sy'n gyfrifol am Adolygiadau Dynladdiad Arfau Bygythiol, sef yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol.
- Mae Canllawiau Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol yn galluogi ardaloedd lleol i benderfynu pa brosesau lleol fydd yn cael eu defnyddio i gydlynu a goruchwylio'r broses Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol.
- Argymhellwyd mai'r Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol yw'r broses adolygu i'w dilyn ar gyfer Dynladdiad Arfau Bygythiol yng Nghymru.




### PROSES

- Cyflwynir ffurflen gyfeirio ADUU i'r Unedau Busnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol pan mae dynladdiad arf bygythiol yn digwydd.
- Bydd Grŵp Adolygu Achosion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, sydd â chynrychiolwyr sy'n cynnwys y tri Phartner Adolygu Perthnasol, yn penderfynu pa un ai a ddylid cynnal ADUU.
- Cyflwynir argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Os bydd ADUU yn cael ei gynnal, penodir Cadeirydd y Panel Adolygu ac Aelodau Panel.
- Gan ddibynnu ar y math o ddynladdiad a'r cylch gorchwyl, bydd gan aelodau'r panel a'r cadeirydd wybodaeth neu brofiad o'r maes pwnc h.y. iechyd meddwl, arfau bygythiol ac ati.
- Mae'r Ganolfan Gydlynu ADUU yn rheoli rhestr o gadeiryddion ac adolygwyr cymeradwy. Nodir manylion am eu harbenigedd, sy'n medru bod o gymorth i ddewis cadeiryddion.

### YMCHWIL AR ACHOSION O DDYNLADDIAD O'R GORFFENNOL

- Ers 2018, mae nifer yr achosion dynladdiad sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol wedi bod rhwng dim a phump y flwyddyn ledled ardal De Cymru gyfan.
- O'r rhain, roedd nifer fawr yn gysylltiedig â math arall o adolygiad, ac felly nid oedd angen Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol.
- Gan hynny, penderfynwyd y bydd nifer yr achosion dynladdiad arfau bygythiol, lle na chynhelir math arall o adolygiad, yn fach iawn.

### YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Pan mae'r ADUU wedi'i gwblhau, mae'n cael ei godio a'i nodi yn YDdC.
- Caiff defnyddwyr awdurdodedig ddefnyddio'r wybodaeth yn YDdC wedyn i nodi themâu ac argymhellion.
- Bydd hyn yn cynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i ddysgu gwersi er mwyn atal marwolaethau pellach.

**This document is also available in English**